Cyflwyniad

Ers i mi gyhoeddi *Sain y Werin,* bu'n fwriad gennyf i drefnu detholiad ychydig yn fwy syml o alawon traddodiadol Cymru ar gyfer telynorion i berfformio gyda'u cyd-ddisgyblion, ffrindiau neu hyd yn oed aelodau o'r teulu! Credaf fod y trefniannau yn y llyfr hwn yn diwallu'r galw am drefniannau heb fod yn rhy anodd ac ar yr un pryd yn gyfrwng i fwynhau perfformio ein cerddoriaeth werin. Rwyf yn ffodus iawn fod Katey Thomas wedi golygu rhan y ffliwt ac rwyf yn ddiolchgar iddi am ei gwaith trylwyr.

Braf yw sylweddoli fod yna ddiddordeb a brwdfrydedd o'r newydd yn ein cerddoriaeth draddodiadol, a gwych clywed cynifer yn ymroi i greu trefniannau gwreiddiol a byrfyfyr. Ar y llaw arall, gwell gan eraill ddibynnu ar drefniannau ysgrifenedig, tebyg i'r rhai yn y llyfr hwn. Am y rheswm hynny, gobeithio bod y gyfrol hon yn ateb peth o'r angen hwnnw. Ychwanegais ychydig o garolau gan fod yna alw bob blwyddyn am drefniannau tebyg yn ystod tymor y Nadolig.

Fel athrawes ag aelod o gerddorfa am ddeng mlynedd ar hugain, alla i ddim gorbwysleisio y pwysigrwydd i ddechrau perfformio gyda offerynwyr eraill mor fuan â phosibl: mae'n weithgaredd cymdeithasol a phleserus sydd ar yr un pryd yn cyfoethogi'r profiad cerddorol ar sawl lefel. Da chi mwynhewch eich hunain ac ymhyfrydu yn ein hetifeddiaeth gerddorol gyda'ch gilydd.

Introduction

Since I published Sain y Werin*, it has been my intention to arrange a simpler collection of Welsh traditional tunes for harpists to play with their fellow pupils, friends or even members of the family! I believe that the contents of this book satisfy the need for arrangements that are not too difficult and at the same time provide a way to enjoy performing our folk music. I am grateful that Katey Thomas has edited the flute part with her customary care and I am indebted to her for her work.*

I am pleased to realize that there is a renewal of interest and enthusiasm in our traditional music, and it is wonderful to hear original and spontaneous arrangements. On the other hand, others prefer to depend on written arrangements, similar to those in this book. For this reason, I hope that this volume answers something of those needs. Included are a number of carols, given that there is a yearly need for similar arrangements during the Christmas season.

As a teacher and an orchestral player for thirty years, I cannot emphasise enough the importance of performing with other instrumentalists as early as possible: it is a sociable and pleasurable activity while at the same time a richly musical experience at many levels. I hope that you will get together to enjoy and delight yourselves in our musical heritage.

Meinir Heulyn